

Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa

I'w gynnal ddydd Iau, 27 Ebrill 2023 am 1600 o'r gloch

Magnox Ltd, Wylfa Hub Office, Swyddfeydd Safle Wylfa Newydd (Pŵer Niwclear Horizon), Bae Cemaes, Ynys Môn, LL67 0AA

Bydd lluniaeth ar gael o 1530 ymlaen, a bydd angen i chi ddod â phrawf adnabod â llun arno gyda chi (pasbort cyfredol neu drwydded yrru â llun).

1. Croeso (5 munud)	Aled M Jones
2. Ymddiheuriadau am absenoldeb a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2022 (5 munud)	Pawb
3. Materion a godwyd o'r Cofnodion blaenorol (5 munud)	Pawb
4. Adroddiad Cadeirydd yr SSG ar Lafar (10 munud)	Aled M Jones
5. Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa (30 munud)	Stuart Law
6. Diweddariad Corfforaethol Magnox ar Lafar (10 munud)	Bill Hamilton
7. Diweddariad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (15 munud)	Simon Napper
8. Diweddariad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ar Lafar (10 munud)	Tanya MacLeod
9. Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd ar Lafar (10 munud)	David Wilby/Kate Simpson
10. Ymgynghoriad ar Reoli Sylweddau Ymbelydrol a Datgomisiynu Niwclear drwy alwad TEAMS	Dawn Armstrong/James Gibbs
11. Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored	Pawb
12. Unrhyw Fater Arall	Pawb

Wylfa Site Stakeholder Group Meeting

To be held on Thursday, 27 April 2023 at 1600 hrs
Magnox Ltd, Wylfa Hub Office, Wylfa Newydd Site Offices (Horizon Nuclear Power), Cemaes Bay,
Anglesey, LL67 0AA

Refreshments will be served from 1530 and please bring with you a piece of photographic
Identification (current passport or photographic drivers' licence) to allow access.

- | | |
|---|----------------------------|
| 1. Welcome (5 min) | Aled M Jones |
| 2. Apologies for Absence & Approval of Minutes of the 13 October 2022 Meeting (5 min) | All |
| 3. Matters arising from the previous Minutes (5 min) | All |
| 4. SSG Chairman's Verbal Report (10 min) | Aled M Jones |
| 5. Wylfa Site Director's Report (30 min) | Stuart Law |
| 6. Magnox Corporate Verbal Update (10 min) | Bill Hamilton |
| 7. Nuclear Decommissioning Authority Update (15 min) | Simon Napper |
| 8. Office for Nuclear Regulation Update (10 min) | Tanya MacLeod |
| 9. Natural Resources Wales / Environment Agency Verbal Update (10 min) | David Wilby/Kate Simpson |
| 10. Consultation on Managing Radioactive Substances
and Nuclear Decommissioning via TEAMS call | Dawn Armstrong/James Gibbs |
| 11. Open Question and Answer Forum Session | All |
| 12. Any Other Business | All |

Next Meeting – 19 October 2023



Crynodeb o'r Prif Bwyntiau o gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa ar 13 Hydref 2022
Swyddfa Hwb Wylfa Magnox, Cemaes, Ynys Môn

1. Adroddodd y Cadeirydd ar y canlynol: -
 - Agor Swyddfa Hwb Wylfa Magnox
 - Uwchgynhadledd yr NDA ar 7 ac 8 Medi 2022 yng Nghaeredin
2. Cyflwynodd Stuart Law Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle a ddosbarthwyd yn flaenorol ym mhecyn y cyfarfod. Hefyd, rhannodd fideo Cyflawniadau Wylfa.
3. Diweddariad Corfforaethol Magnox – Diweddariad gan Bill Hamilton i'r aelodau ar faterion corfforaethol a chyfathrebu
4. Adroddiad yr NDA – Tywyswyd yr aelodau gan Simon Napper drwy'r adroddiad diweddar a ddosbarthwyd yn flaenorol.
5. Dosbarthwyd adroddiad ONR gyda phhecyn y cyfarfod. Roedd Ian Dallas wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau; fodd bynnag, nodwyd cynnwys yr adroddiad gan aelodau'r Grŵp a oedd yn bresennol.
6. Cafodd adroddiad diweddar Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd ei ddosbarthu gyda phhecyn y cyfarfod. Roedd Kate Simpson, Asiantaeth yr Amgylchedd, wedi cyflwyno ei hymddiheuriadau; fodd bynnag, nodwyd cynnwys eu hadroddiad gan aelodau'r Grŵp a oedd yn bresennol.



Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa

Dydd Iau 13 Hydref 2022, Swyddfa Hwb Wylfa Magnox, Cemaes, Ynys Môn

Yn bresennol:

Y Cyng Aled M Jones	Cyngor Sir Ynys Môn, Ward Twrcelyn a Chadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle
Stuart Law	Cyfarwyddwr y Safle, Magnox
Simon Napper	Yr Awdurdod Datgomiynu Niwclear (NDA)
Y Cyng Derek Owen	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Y Cyng Gwilym O. Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng Jackie Lewis	Cyngor Sir Ynys Môn
Angharad Crump	Cyngor Sir Ynys Môn
Mark Elsworth	Magnox
Y Cyng Gordon Warren	Cyngor Tref Amlwch
Bill Hamilton	Magnox
Mair Jones	Magnox
Steve Roberts	Horizon
Peter Day	Ffederasiwn Busnesau Bach
Bethan Davies	Cynrychiolydd Virginia Crosbie AS
Clair Wing	Arweinydd Cyfathrebu Rhanbarthol Magnox Cymru
Y Cyng Gwilym Morris	Cyngor Cymuned Rhosybol
Jill Callander	Ysgrifenyddiaeth Grŵp Rhanddeiliaid y Safle
Y Cyng Gareth Winston Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Eira Parry	Cyfieithydd - Cymen
Sydna Roberts	Cofnodydd – Cymen

Ymddiheuriadau:

Y Cyng Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn
Gwyn Roberts	Arolygydd Safle Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Magnox
Jonathan Holland	Cynllunio at Argyfyngau, Cynghorau Gogledd Cymru
Ian Dallas	Y Swyddfa Reoleiddio Niwclear (ONR)
Kate Simpson	Asiantaeth yr Amgylchedd
Enid Jones	Sefydliad y Merched
Rhun Ap Iorwerth	AS
Christopher Thomas	Asiantaeth Safonau Bwyd
Y Cyng Llio A Owen	Cyngor Sir Ynys Môn
Wyn Roberts	Llywodraeth Cymru
Richard James	Rheolwr Busnes Niwclear, Llywodraeth Cymru
Y Cyng Liz Wood	Cyngor Tref Amlwch
Tim Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW)
Y Cyng Jac Jones	Cyngor Cymuned Mechell

1 Croeso a Derbyn Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod am 9.30am a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod. Croesawodd Angharad Crump, Rheolwr Cyflawni'r Rhaglen Ynys Ynni, Cyngor Sir Ynys Môn a'r Cyng Jackie Lewis, sydd newydd gael ei hethol yn Gynghorydd Ward Talybolion, i'w chyfarfod cyntaf o'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle. Nododd fod y Cyng Derek Owen hefyd wedi cael ei ethol yn ddiweddar yn Gynghorydd Sir.

Mae Rhona Arkle wedi symud i swydd newydd ac mae Kate Simpson wedi cymryd drosodd fel Arolygydd Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Wylfa. Fodd bynnag, nid oedd hi'n gallu dod i'r cyfarfod hwn.

2. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022

Roedd y cofnodion wedi eu cylchredeg cyn y cyfarfod. Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir, a gynigiwyd gan y Cyng Derek Owen ac a eiliwyd gan y Cyng Gwilym O. Jones.

3 Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol

Ni chodwyd unrhyw fater

4 Adroddiad Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad byr ar y canlynol:

- Agor Swyddfa Hwb Wylfa Magnox a agorwyd yn swyddogol ar 5.10.22. Roedd yn falch o nodi bod nifer o brentisiaid ifanc wedi dod i'r agoriad ac y bydd yr Hwb hwn yn adnodd modern gwerthfawr ar gyfer y dyfodol.
- Mynychodd Uwchgynhadledd yr NDA ar 7-8 Medi 2022 yng Nghaeredin gyda'r Is-gadeirydd Derek Owen.

5 Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa

Cyflwynodd Stuart Law yr adroddiad cynhwysfawr, a oedd wedi cael ei rannu cyn y cyfarfod. Gellir crynhoi'r adroddiad fel a ganlyn:

- Ystadegau Diogelwch – ni nodwyd unrhyw faterion sy'n peri pryder o ran diogelwch
- Prosiectau Gwastraff –
- Cyfleuster HAW / LAW - contract gyda dyluniad y cynllun wedi'i ddyfarnu i Atkins.
- Adeiladu compownd sgipiau newydd - cais am ganiatâd cynllunio wedi'i gyflwyno a gwaith ymchwiliadau tir wedi'i gwblhau.
- Cyfleuster storio DCIC - dilysu dyluniad y cynllun wedi'i gwblhau. Adolygiad 2 yr Awdurdod Dylunio – cafodd ei gymeradwyo 1af Gorffennaf 2022.
- Tynnu asbestos o'r llawr dadawyru – nododd Stuart Law fod y prosiect i dynnu neu lanhau 18,819m² o'r llawr Dadawyru i sicrhau ei fod yn rhydd o asbestos yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r gwaith yn cael ei wneud gan y prif gontractwr, Altrad, sef y tro cyntaf i gontract o'r math hwn gael ei osod ar safle Wylfa.

Wrth i Magnox barhau â'i brosiect datgomisiynu, mae tirwedd y safle'n newid yn gyson. Mae'r gwaith o ddymchwel y canlynol wedi'i gwblhau

- Hen Floc Hyfforddi
- MB1
- Hen Swyddfeydd Dydd Gweithredol

- Adeilad Heysham
- Adeilad Ffordd y Dwyrain

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr

- Offer CO²
- Newidydd Cynhyrchu Segur
- Yr Hen Borthdy Diogelwch
- Tanciau Dŵr ac Adlif
-

System Troshaen Drydanol Newydd

- Dosbarthu ar y safle – Dyfarnwyd y contract i UKPNS
- Cyflenwad oddi ar y safle - newidydd newydd wedi'i fywiogi ac mewn gwasanaeth yn Is-orsaf Cemais
- Rheoli Asedau
- Gwellu'r adeiladau safle
- Cynnal a chadw seilwaith fel newid rhai polion lamp.
- Cael gwared ar asbestos mewn rhai ardaloedd ar draws y safle
- Darparu cyflenwad dŵr newydd ar draws adeilad Offer yr Adweithydd.
- Technoleg Gweithio'n Gallach – mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sefydlu wythnos waith 4 diwrnod.
- Hwb Magnox Wylfa – mae 68 o weithfannau a phedair ystafell gyfarfod, pob un â chyfleusterau cynadledda fideo a'r gallu i eistedd rhwng 4 a 60 o bobl.
- Gwobrau Gweithwyr Grŵp yr NDA - Cyrhaeddodd dau dîm o Wylfa rownd derfynol Gwobrau Gweithwyr Grŵp yr NDA 2022. Cydnabu'r aelodau fod hyn yn llwyddiant gwych i'r ddau dîm.
- Recriwtio yn Magnox
 - Mae 1 prentis a arferai fod gydag Orthios wedi cael ei gyflogi er mwyn gallu parhau â'r brentisiaeth. Dechreuodd 4 prentis Magnox ym mis Medi.
 - 4 aelod parhaol newydd o staff yn dechrau ar safle Wylfa.
 - Staff swyddfa gymorth Magnox yn gweithio yn Hwb Wylfa Magnox.
- Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg – Ymgysylltu gan Wylfa a Thrawsfynydd
 - Mae'r safle wedi lletya unigolion o'r ysgol ar brofiad gwaith.
 - Gweithio'n agos gyda STEM GweGogledd Cymru (GWE) i gefnogi gweithgareddau, digwyddiadau a hyrwyddo amrywiaeth yn Magnox.
- Cynaliadwyedd –wedi'u trosglwyddo i safleoedd eraill neu'n cael eu gwerthu i'r gymuned leol mae:
 - Cywasgydd aer anadlu a werthwyd i Ysgol Deifio Amlwch.

- Injan dân a phympiau wedi'u trosglwyddo i Sellafield.
- Pympiau tân symudol wedi'u trosglwyddo i Dounreay.
- JCB wedi'i drosglwyddo i Faentwrog.
- Ymweliadau – Ymwelodd Michael Portillo â Wylfa ym mis Awst fel lleoliad arddangos yn y nesaf o'i gyfres deledu o'r enw 'Great British Railway Journeys'.
- Bu cwmni ynni o Sweden, UNITRE, hefyd yn ymweld â'r safle i rannu'r profiad o ddatgomiysu.
- Diweddariad Economaidd-gymdeithasol Magnox
 - Cyfrannodd Magnox £98,000 i grŵp Cymunedau Ymlaen Môn tuag at y prosiect trawsnewid gwerth £175,000, er mwyn creu canolfan aml-asiantaeth newydd yn hen Fanc Barclays, Amlwch.
 - Derbyniodd Ffermwyr Ifanc Ynys Môn £1,500 gan Magnox i brynu deunyddiau ar gyfer gwahanol gystadlaethau yn eu Rali Flynyddol, a gynhaliwyd am y tro cyntaf mewn 2 flynedd.

Yna, dangoswyd fideo i'r aelodau o lwyddiannau diweddar Wylfa a oedd yn amlinellu'r daith ddatgomiysu hyd yma. Fe'i defnyddir hefyd i helpu gyda recriwtio ac fel canllaw i weithwyr newydd.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Law am ei adroddiad ac am gael gweld y fideo. Eiliodd y Cyng GWR y bleidlais o ddiolch.

Sesiwn Holi ac Ateb

Ni ddaeth dim i law; fodd bynnag, cytunwyd i gynnal ymweliad safle, gyda'r gobaith o'i drefnu cyn cyfarfod y grŵp hwn ym mis Medi 2023. **Gweithredu – Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â'r safle i drefnu.**

6 Diweddariad Corfforaethol Magnox

Croesawyd Mr Bill Hamilton Cyfarwyddwr Cyfathrebu Magnox i'r cyfarfod. Rhoddodd gyflwyniad byr ar faterion corfforaethol a gynhoir fel a ganlyn:-

Adfywio

Dyweddodd fod gan y sefydliad ddyfodol cyffrous o'i flaen wrth iddo ddyblu ei faint a'i gwmpas dros y blynyddoedd nesaf. Ei gylch gwaith a'i genhadaeth yw bod yn gyfrifol am ddatgomiysu 12 o safleoedd niwclear yn ddiogel a gweithredu un safle trydan dŵr. I'r perwyl hwn, mae Magnox wedi datblygu Rhaglen Adfywio.

Tîm Cynllunio i'r Dyfodol fydd yn gyfrifol am strategaeth Magnox i integreiddio cwmpas gwaith datgomiysu newydd i'r portffolio presennol. Dwy agwedd allweddol yw Magnox yn ymuno â Dounreay o dan fwrdd un trwyddedai erbyn mis Ebrill 2023 ac yn trosglwyddo ac yn datgomiysu saith safle adweithyddion nwy uwch EDF, ar ôl gwagio tanwydd.

Cyfathrebu

Mae Magnox yn ymdrechu i ymgysylltu'n agos â chymunedau a rhanddeiliaid lleol o amgylch ei safleoedd drwy rwydweithiau fel Grwpiau Rhanddeiliaid Safle, ond er mwyn cyrraedd cynulleidfahangach mae'n defnyddio amrywiaeth o gyfryngau cymdeithasol fel LinkedIn a Twitter. Ar hyn o bryd mae hefyd yn ystyried a all ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau ar TikTok ac Instagram ac mae ganddo sianel YouTube sy'n cynnwys cyfres o fideos am waith Magnox.

Mae modd dod o hyd i ni ar Twitter - @Magnoxsites

Dewch o hyd i ni ar LinkedIn drwy chwilio drwy Magnox Ltd

Yn gynharach yn y flwyddyn, cynhaliodd Magnox arolwg ymgysylltu â'i weithwyr, a oedd yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella'n barhaus yr oedd y cwmni eisiau mynd i'r afael â nhw. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod mwy o gyfleoedd i ddathlu llwyddiannau ar y cyd a chael y wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth flaengar Magnox.

Tynnu Asbestos

Mae ein hymrwymiad i dynnu ac adfer deunydd asbestos o safleoedd Magnox wedi parhau eleni, gyda cherrig milltir sylweddol yn y prosiect eisoes yn cael eu cyrraedd.

Mae'r prosiect tynnu asbestos o'r llawr dadawyru yn Wylfa ymhell dros hanner ffordd, ac mae'r prosiect yn cymryd camau breision tuag at y targed ar gyfer 2022/23.

Diolchodd y Cadeirydd i BH am ei ddiweddiariad.

Sesiwn Holi ac Ateb – ni ddaeth dim i law, fodd bynnag, dymunai'r Cyng Derek Owen ddiolch i Mair Jones a'r tîm am y gwaith ardderchog a wnaed ynghylch y cyllid Economaidd-gymdeithasol. Nododd Bill Hamilton fod y cyllid hwn yn arbennig o fuddiol i Ogledd Ynys Môn a bod Magnox yn ymfalchïo mewn cefnogi cymunedau lleol.

7. Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Rhoddodd Mr Simon Napper grynodedd byr o'r adroddiad a ddosbarthwyd eisoes i'r aelodau, fel a ganlyn:-

Gwaith yr NDA

Mae'r NDA yn parhau i weithredu ar fodel gweithio hybrid gyda chymysgedd o waith swyddfa a gweithio gartref. Ar hyn o bryd, mae staff yn gweithio 2-3 diwrnod yr wythnos yn y swyddfa ar gyfartaledd.

Cynllun Busnes yr NDA

Gobeithir lansio'r cynllun busnes ym mis Rhagfyr 2022 gyda chyfnod ymgynghori o 8 wythnos i ddilyn.

Asesiadau o'r Effaith ar yr Economi

Mae'r NDA wedi diweddarau ei asesiadau o effaith economaidd ei weithgareddau gyda thri adroddiad wedi'u cyhoeddi (Dounreay, Cumbria a safleoedd Magnox) sydd ar gael ar wefan yr NDA i'w harchwilio a nododd SN ei fod yn fodlon ymateb i unrhyw ymholiadau neu gwestiynau gan aelodau'r Grŵp.

Trosglwyddo Adweithyddion Nwy Uwch (AGR)

Dywedodd SN y bydd yr holl danwydd yn cael ei drosglwyddo i Sellafield i'w storio nes bydd cyfleuster gwaredu daearegol wedi cael ei nodi. Disgwylir y bydd y gost o wagio tanwydd a datgomisiynu'r saith adweithydd nwy uwch yn cael ei thalu o'r Gronfa Rhwymedigaethau Niwclear.

Cwmni Eginio

Cyhoeddodd yr NDA a Chwmni Eginio ym mis Mai 2022 y byddent yn cydweithio ar gynigion i leoli datblygiad niwclear newydd yn Nhrawsfynydd yng Ngogledd Cymru. Gyda chytundeb BEIS, mae'r ddau sefydliad wedi bod yn gweithio tuag at gytundeb cydweithio sydd â'r nod o ddatblygu cynlluniau a fydd, yn y pen draw, yn cefnogi Strategaeth Diogelwch Ynni Llywodraeth y DU. Mae hyn wedi cael ei ffurfioli mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n crynhoi sut byddant yn gweithio gyda'i gilydd.

Uwchgynhadledd yr NDA – 'Keep the Conversation Going'

Cynhaliwyd y digwyddiad yng nghanol Caeredin ar 7-8 Medi, a chymerodd bron i 170 o bobl ran o bob rhan o'r DU. Roedd yn gyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strwythur a chynlluniau newydd y

grŵp.

Diolchodd y Cadeirydd i Simon Napper am ei ddiweddariad a chefnogodd y gwaith a oedd yn cael ei wneud i ymgysylltu â phobl ifanc.

Sesiwn Holi ac Ateb

Holodd y Cyng GWR ynghylch y posibilrwydd o leoli Adweithydd Modiwlaid Bychan (SMR) yn Wylfa. Nododd SN fod opsiynau amrywiol yn cael eu trafod ar hyn o bryd.

8 Diweddariad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Dosbarthwyd adroddiad ONR gyda phapurau'r cyfarfod; fodd bynnag, nid oedd Mr Ian Dallas yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan aelodau'r Grŵp a oedd yn bresennol.

9 Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd

Dosbarthwyd yr adroddiad ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd gyda phapurau'r cyfarfod; fodd bynnag, nid oedd Kate Simpson yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan aelodau'r Grŵp a oedd yn bresennol.

10 Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored – ni chodwyd unrhyw fater

11. Unrhyw Fater Arall

Dymunai'r Cadeirydd ddiolch i Mr Ken Hughes a Mr John Griffiths am eu cyfraniad i'r Grŵp yn rhinwedd eu swydd fel Cyngorwyr Sir ar Ynys Môn. Cytunwyd yn unfrydol i fynegi diolch a dymuniadau gorau'r Grŵp yn ffurfiol i'r ddau ohonynt.

Dymunai hefyd ddiolch i Mrs Jill Callander am ei phresenoldeb a'i threfniadau cyfarfod effeithlon, gan ddymuno taith ddiogel iddi adref i Ecclefechan yn yr Alban.

Holodd a oedd y cychwyn am 9:30am yn dderbyniol i bawb. Ni chafwyd unrhyw ymatebion yn anghytuno, felly, bydd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 9 Chwefror 2023 yn dechrau am 9:30am.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 11:00

Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf yn 2023 – 19 Hydref



Summary of Key points from the Wylfa SSG Meeting 13 October 2022, Magnox Wylfa Hub Office, Cemaes, Anglesey

1. The Chairman reported on the following: -
 - a. Opening of the Magnox Wylfa Hub Office
 - b. The NDA Summit on the 7& 8 September 2022 in Edinburgh
2. Stuart Law presented the Site Director's Report circulated previously within the meeting pack. He also shared the Wylfa Achievements video.
3. Magnox Corporate update – Bill Hamilton updated members on corporate and communications issues
4. NDA Report - Simon Napper guided members through the previously circulated update report.
5. ONR report was circulated with the meeting pack. Ian Dallas had tendered his apologies, however, the content of the report was noted by the SSG members present.
6. NRW/EA update report was also circulated with the meeting pack. Kate Simpson EA had tendered her apologies; however, the content of their report was noted by SSG members present.



Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group
Thursday 13 October 2022, Magnox Wylfa Hub Office, Cemaes, Anglesey

Present:

Cllr Aled M Jones	IOACC Twrcelyn Ward and SSG Chair
Stuart Law	Site Director, Magnox
Simon Napper	Nuclear Decommissioning Authority (NDA)
Cllr Derek Owen	Llanbadrig Community Council
Cllr Gwilym O. Jones	IoACC
Cllr. Jackie Lewis	IoACC
Angharad Crump	IoACC
Mark Elsworth	Magnox
Cllr Gordon Warren	Amlwch Town Council
Bill Hamilton	Magnox
Mair Jones	Magnox
Steve Roberts	Horizon
Peter Day	FSB
Bethan Davies	Virginia Crosbie MP representative
Clair Wing	Magnox Regional Communications Lead for Wales
Cllr Gwilym Morris	Rhosybol Community Council
Jill Callander	SSG Secretariat
Cllr Gareth Winston Roberts	Amlwch Town Council
Eira Parry	Translator - Cymen
Sydna Roberts	Minute taker – Cymen

Apologies:

Cllr Llinos Medi Huws	Isle of Anglesey County Council
Gwyn Roberts	Magnox EHSS&Q Site Inspector
Jonathan Holland	Emergency Planning, North Wales Councils
Ian Dallas	ONR
Kate Simpson	Environment Agency
Enid Jones,	WI
Rhun Ap Iorwerth	MS
Christopher Thomas	Food Standards Agency
Cllr. Llio A Owen	Isle of Anglesey County Council
Wyn Roberts	Welsh Government
Richard James	Nuclear Business Manager, Welsh Government
Cllr Liz Wood	Amlwch Town Council
Tim Poole	CPRW
Cllr J Jones	Mechell Community Council

1 Welcome and Receive Apologies for Absence

The Chair welcomed all to the meeting at 9:30 am and apologies were noted as above. He welcomed Angharad Crump, Energy Island Programme Delivery Manager, Isle of Anglesey County Council and Cllr Jackie Lewis, newly elected Councillor for Talybolion Ward to their first meeting of the SSG. He noted that Cllr Derek Owen has also been recently elected as a County Councillor.

Rhona Arkle has moved to a new position and Kate Simpson has taken over as Environment Agency Inspector for Wylfa, however, she was not able to attend this meeting.

2. Approval of Minutes of the Meeting held 10 February 2022

The minutes had been circulated prior to the meeting. The minutes were received and accepted as a true record, proposed by Cllr Derek Owen and seconded by Cllr Gwilym O. Jones.

3 Matters Arising from the Previous Minutes

None raised

4 SSG Chairman's Report

The Chair provided a brief update on the following:

- Opening of the Magnox Wylfa Hub Office which was officially opened on 5.10.22. He was pleased to note that several young apprentices attended the opening and that this Hub will be a valuable modern resource for the future.
- Attended the NDA Summit on the 7-8 September 2022 in Edinburgh with the Vice Chair Derek Owen.

5 Wylfa Site Director's Report

Stuart Law presented his comprehensive report, copies of which had been circulated prior to the meeting. The report is summarised as follows:-

- Safety Statistics – no issues of safety concern reported
- Waste Projects –
 - HAW / LAW facility - contract with scheme design awarded to Atkins.
 - Construct a new skip compound - planning permission application submitted and ground investigation work completed.
 - DCIC storage facility - scheme design verification complete. Design Authority Review 2 - sign off was achieved 1st July 2022.
- Deaerator floor asbestos removal – Stuart Law noted that the project to remove or clean 18,819m² from the Deaerator floor to ensure it is asbestos free is going well. The work is being carried out by principal contractor, Altrad, which is the first time a contract of this type has been let at Wylfa site.

As Magnox continues with its decommissioning project the site landscape is constantly changing Demolition of the following has been completed

- Old Training Block
- MB1
- Ex Day Ops Offices

- Heysham Building
- East Road Building

Work in progress on the

- CO² Plant
- Redundant Gen Transformer
- Old Security Gatehouse
- RAW Water and Backwash Tanks
-

New Electrical Overlay System

- On site distribution - contract Awarded to UKPNS
- Off site supply - new transformer energised and in service at Cemaes Bay Sub Station
- Asset Management:
- Improvements to site accommodation
- Maintaining infrastructure such as the replacement of some lampposts.
- Removal of asbestos in limited areas across the site
- Provision of a new water supply across the Reactor Equipment building.
- Smarter Working Technology – consideration is being given to establishing a 4-day working-week.
- Magnox Hub Wylfa - there are 68 workstations and four meeting rooms, each with video conference facilities and the capacity to seat from 4 to 60 people.
- NDA Group Employee Awards - two Wylfa teams reached the finals of the NDA Group Employee Awards 2022 which was acknowledged by members as a fantastic achievement for both teams.
- Magnox Recruitment
 - 1 ex-Orthios apprentice has been taken on to allow for continuation of the apprenticeship. 4 Magnox apprentices started in September.
 - 4 new permanent members of staff starting at Wylfa site.
 - Magnox support office staff working at the Magnox Wylfa Hub.
- Science, Technology, Engineering and Mathematics – Engagement by Wylfa and Trawsfynydd
 - The site has hosted school work experience individuals.
 - Working closely with STEM GweGogledd Cymru (GWE) supporting activities, events and promoting diversity in Magnox.
- Sustainability –transferred to other sites or sold on to the local community are:
 - BA Compressor sold to Amlwch Diving School.

- Fire engine and pumps transferred to Sellafield.
- Mobile fire pumps transferred to Dounreay.
- JCB transferred to Maentwrog.
- Visits - Michael Portillo visited Wylfa in August as a feature location in the next of his TV series called 'Great British Railway Journeys'.
- Swedish energy company UNIPER also visited the site to share de-commissioning experience.
- Magnox Socio-economics update
 - Môn Communities Forward (Môn CF) received £98,000 contribution from Magnox towards the £175,000 transformational project, creating a new multi-agency hub in the old Barclays Bank, Amlwch.
 - Anglesey Young Farmers received £1,500 from Magnox to purchase materials for various competitions in their Annual Rally, held for the first time in 2 years.

Members were then shown a video of recent Wylfa achievements which outlined the decommissioning journey to date and is also used to aid recruitment and as a guide for new starters.

The Chair thanked Mr Law for his report and sight of the video. Cllr GWR seconded the vote of thanks.

Question and Answer Session

None received; however, it was agreed to hold a site visit, hopefully scheduled prior to the September 2023 meeting of this group. **Action – Secretariat to liaise with the site to arrange.**

6 Magnox Corporate update

Mr Bill Hamilton Communications Director for Magnox was welcomed to the meeting. He gave a brief presentation on corporate issues summarised as follows:-

Regeneration

He stated that the organisation has an exciting future ahead as it doubles in scale and scope over the coming years. Its remit and mission is to be responsible for the safe and secure decommissioning of 12 nuclear sites and operation of one hydro-electric plant. To this end, Magnox has developed a Regeneration Programme.

The Future Missions team will be responsible for Magnox's strategy for integrating new decommissioning work scope into the existing portfolio. Two key aspects are Magnox joining with Dounreay under a single licensee board by April 2023 and transferring and decommissioning EDF's seven advanced gas-cooled reactor sites, post-defueling.

Communications

Magnox endeavours to engage closely with local communities and stakeholders around its sites via networks such as the SSGs, but to reach a wider audience it utilises a range of social media such as LinkedIn and Twitter. It is also currently exploring whether it can engage with younger audiences on TikTok and Instagram and has a YouTube channel that hosts a series of videos about Magnox work.

Find us on Twitter @Magnoxsites

Find us on LinkedIn by searching Magnox Ltd

Earlier in the year Magnox ran an engagement survey with its employees, which highlighted areas of ongoing improvement that the company wanted to address. These included ensuring there were more opportunities to celebrate collective accomplishments and receive updated information about Magnox's forward-looking strategy.

Asbestos Removal

Our commitment to removing and remediating asbestos material from Magnox sites has continued this year, with significant project milestones already being hit.

The deaerator asbestos removal project at Wylfa is well over the half-way mark, and the project is making great strides into their 2022/23 target.

The Chair thanked BH for his update.

Question and Answer Session – none received, however, Cllr Derek Owen wished to thank Mair Jones and the team for the excellent work undertaken regarding the Socio-economic funding. Bill Hamilton noted that this funding is particularly beneficial to North Anglesey and that Magnox takes pride in supporting local communities.

7. Nuclear Decommissioning Authority

Mr Simon Napper was welcomed to the meeting and gave a brief summary of the report previously circulated to members as follows:-

NDA Working

NDA continues to operate on a hybrid working model with a mix of home-working and office-based work. Currently, personnel are working on an average of 2-3 days a week in the office.

NDA Business Plan

It is hoped to launch the business plan in December 2022 with an 8-week consultation period to follow.

Economic Impact Assessments

NDA has updated its assessments of the economic impact of its activities with three reports published (Dounreay, Cumbria and the Magnox sites) which are available on the NDA's website for perusal and SN noted that he was happy to respond to any resulting queries or questions from SSG members.

AGR Transfer

SN stated that all the fuel will be transferred to Sellafield for storage until a GDF has been identified. The cost of defuelling and decommissioning the seven AGR reactors is due to be met from the Nuclear Liabilities Fund.

Cwmni Eginio

The NDA and Cwmni Eginio announced in May 2022 that they would work together on proposals for the siting of a new nuclear development at Trawsfynydd in North Wales. With the agreement of BEIS, the two organisations have been working towards a collaboration agreement aimed at progressing plans which will ultimately support the UK government's Energy Security Strategy. This has been formalised in a Memorandum of Understanding which summarises how they will work together.

NDA Summit – 'Keep the Conversation Going'

Held in central Edinburgh on 7-8 September, nearly 170 people participated from across

the UK, which provided an opportunity to update on the new group structure and plans

The Chair thanked Simon Napper for his update and supported the work being undertaken to engage with young people.

Question and Answer session

Cllr GWR enquired as to the prospect of a Small Modular Reactor (SMR) being situated at Wylfa. SN noted that various options are currently under discussion.

8 Office for Nuclear Regulation Update

An ONR report was circulated with the meeting papers; however, Mr Ian Dallas was unable to attend the meeting. The content of the report was noted by the SSG members present.

9 Natural Resources Wales / Environmental Agency Update

A joint NRW/EA report was circulated with the meeting papers; however, Kate Simpson EA was unable to attend the meeting. The content of the report was noted by the SSG members present

10 Open Forum Question and Answer Session – none raised

11. Any Other Business

The Chair wished to thank Mr Ken Hughes and Mr John Griffiths for their contribution to the SSG in their capacity as Isle of Anglesey County Councillors. It was unanimously agreed to formally express the SSG's thanks and best wishes to them both.

He also wished to thank Mrs Jill Callander for her attendance and efficient meeting arrangements, wishing her a safe journey home to Ecclefechan in Scotland.

He enquired as to whether the 9:30am start was acceptable to all. No dissenting responses were received, therefore, the meeting scheduled for 9 February 2023 will commence at 9:30 am.

The Chair thanked all for their attendance and closed the meeting at 11:00 am

Dates for Next Meetings in 2023 – 19 October 2023



Y Swyddfa Reoleiddio Niwclear (ONR)

Adroddiad Safle ar gyfer Wylfa

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf 2022 i 31 Rhagfyr 2022

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn fel rhan o ymrwymiad ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau rheoleiddio ac arolygu sy'n ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau i aelodau ar gyfer Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa (SSG), ac maent hefyd ar gael ar wefan ONR (<http://www.onr.org.uk/llc>).

Mae arolygwyr safle o ONR fel arfer yn mynychu cyfarfodydd SSG Wylfa lle cyflwynir yr adroddiadau hyn, a byddant yn ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir yno. Dylai unrhyw un sydd am ymholi ynghylch materion yn yr adroddiad hwn gysylltu ag ONR.



Tabl Cynnwys

1. Arolygiadau.....	3
2. Materion Arferol	4
3. Materion Nad Ydynt yn Rhai Arferol	6
4. Gweithgarwch Rheoleiddiol	7
5. Newyddion o ONR	8
6. Cysylltiadau	8

1. Arolygiadau

1.1. Dyddiadau Arolygiadau

Cynhaliodd Arolygwyr ONR arolygiadau ar y dyddiadau canlynol yn ystod y cyfnod adrodd, 1 Gorffennaf 2022 i 31 Rhagfyr 2022:

- 23 Awst 2022
- 21 i 22 Medi 2022
- 17 Tachwedd 2022
- 21 Tachwedd 2022

2. Materion Arferol

2.

2.1. Arolygiadau

Cynhelir arolygiadau fel rhan o'r broses ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â:

- yr amodau sydd wedi'u hatodi gan ONR i'r drwydded safle niwclear a roddwyd o dan Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i diwygiwyd);
- Deddf Ynni 2013;
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74);
- rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft Rheoliadau Ymbelydriadau Ioneiddio 2017 (IRR17) a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99);
- Rheoliadau Diogelwch y Diwydiannau Niwclear (NISR) 2003 (fel y'i diwygiwyd); a
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Mae'r arolygiadau'n cynnwys monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau achosion diogelwch, ac unrhyw faterion eraill a allai effeithio ar ddiogelwch a diogeledd. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith yn unol ag amodau sydd ynghlwm â'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau'n ceisio barnu ynghylch digonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithrediad.

Yn y cyfnod hwn, roedd arolygiadau rheolaidd o'r Wylfa yn cwmpasu'r canlynol:

- digwyddiadau ar y safle;
- rheoli gweithrediadau, gan gynnwys rheolaeth a goruchwyliaeth;
- rheoli gwastraff (ymbelydrol a gwastraff rheoledig);
- digomisiynu;
- iechyd a diogelwch confensiynol (nad ydynt yn niwclear); a
- diogelwch.

Cynhaliwyd ein harolygiad rheoli gwastraff ym mis Medi 2022 ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru (gyda chefnogaeth Asiantaeth yr Amgylchedd).

Cafodd arolygiad o drefniadau brys Wylfa a fwriadwyd ar gyfer 20 Medi 2022 ei ohirio tan Ionawr 2023 oherwydd angladd Ei Mawrhydi y Frenhines ar ddydd Llun, 19 Medi, a'r effaith a gafodd hyn ar argaeledd gwasanaethau brys ac aelodau staff eraill.

Gall aelodau'r cyhoedd a hoffai rhagor o wybodaeth am weithgareddau arolygu ONR yn ystod y cyfnod adrodd weld adroddiadau ymyrraeth y safle yn www.onr.org.uk/intervention-records ar ein gwefan www.onr.org.uk. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y gweithgareddau arolygu, e-bostiwch contact@onr.gov.uk.

2.2. Gwaith Arall

Drwy gydol y cyfnod adrodd hwn, mae arolygydd diogelwch safle enwebedig ONR wedi cynnal cyfarfodydd bob pythefnos gyda chynrychiolydd tîm arweinyddiaeth Wylfa i gynnal ymwybyddiaeth sefyllfaol o faterion sy'n gysylltiedig â diogelwch niwclear, diogelwch, mesurau diogelu, trafnidiaeth, a iechyd a diogelwch confensiynol. Mae hyn yn cynnwys: gwytnwch y gweithlu, gwytnwch trefniadau brys, gwytnwch y gadwyn gyflenwi, diogelwch tân, digwyddiadau ar y safle a gweithgareddau a gynhelir ar y safle.

Cynhaliodd ONR broses ymgysylltu, y'i phwrrpas oedd trafod dymchwel neuadd dyrbinau arfaethedig Wylfa, gan gynnwys ynysu gwasanaethau, a darpariaeth gofynion pŵer y safle yn y dyfodol.

3. Materion nad ydynt yn rhai arferol

Mae'n ofynnol i drwyddedai gael trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau nad ydynt yn rhai arferol. Mae arolygwyr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, gan gynnwys camau a gymerwyd i roi unrhyw welliannau angenrheidiol ar waith.

Yn unol â'i drefniadau ysgrifenedig, ar 29 Tachwedd 2022 cyngorodd Wylfa yr ONR bod tân wedi digwydd yn ystod datgymalu newidydd segur a gynlluniwyd. Roedd y newidydd wedi'i storio ym mhen gogleddol y safle ers sawl blwyddyn, ac nid oedd mewn ardal radiolegol dan reolaeth. Roedd ONR yn fodlon bod ymateb Wylfa i'r digwyddiad hwn yn ddigonol, ac mae bellach yn aros am ganlyniad ymchwiliad safle cyn penderfynu ar unrhyw gamau gweithredu dilynol rheoleiddiol.

4. Gweithgarwch Rheoleiddiol

Gall ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion rheoleiddio. O dan amodau trwydded safle niwclear, mae ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoleiddio, sydd naill ai'n caniatáu gweithgarwch neu'n gofyn am gymryd rhyw fath o gamau; gelwir y rhain fel arfer yn 'Offerynnau Trwydded' (LI), ond gallant fod ar ffurfiau eraill. Yn ogystal, caiff arolygwyr gymryd ystod o gamau gorfodi, i gynnwys rhoi Hysbysiad Gorfodi.

Ni chyhoeddwyd unrhyw LI, Hysbysiadau Gorfodi na Llythyrau Gorfodi yn ystod y cyfnod hwn.

Mae adroddiadau sy'n manylu ar ein penderfyniadau rheoleiddio i'w gweld ar wefan ONR yn <http://www.onr.org.uk/pars/>.

5. Newyddion o ONR

Am y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf o'r Swyddfa Reoleiddio Niwclear, darllenwch a thanysgrifio i'n cylchlythyr e-bost rheolaidd *ONR News* yn www.onr.org.uk/onrnews.

6. Cysylltiadau

Y Swyddfa Reoleiddio Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Merswy
L20 7HS

Gwefan: www.onr.org.uk
E-bost: contact@onr.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa Reoleiddio Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am ONR, neu i adrodd am anghysondebau neu gamgymeriadau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Y Swyddfa Reoleiddio Niwclear [2022]

Os hoffech aildefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.onr.org.uk/copyright.htm am fanylion.

Cyhoeddwyd 01/23

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael, ac mae copïo neu argraffu'r ddogfen yn golygu nad yw wedi'i rheoli mwyach.

Office for Nuclear Regulation (ONR)

Site Report for Wylfa

Report for period 1 July 2022 to 31 December 2022

Foreword

This report is issued as part of ONR's commitment to make information about inspection and regulatory activities relating to the above site available to the public. Reports are distributed to members for the Wylfa Site Stakeholder Group (SSG) and are also available on the ONR website (<http://www.onr.org.uk/llc/>).

Site inspectors from ONR usually attend Wylfa SSG meetings where these reports are presented and will respond to any questions raised there. Any person wishing to inquire about matters covered by this report should contact ONR.

Table of Contents

1. Inspections	3
